WHIASU

Wales Health Impact Assessment Support Unit

Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru

Rhifyn Gaeaf 2019

# WHIASU *Cylchlythyr*

## CYNNWYS


**01** Y Newyddion Diweddaraf

i. Croeso i Aelodau Newydd Tîm WHIASU

**02** Prif Gyflawniadau

i. Adroddiad HIA ar Brexit

ii. Gweithdy ar flaenoriaethau strategol ar ôl Brexit

iii. Cyhoeddi Fframwaith Meithrin Gallu a Hyfforddiant WHIASU ar gyfer Asesu'r Effaith ar Iechyd

**03** Hyfforddiant

i. Cynnal hyfforddiant a meithrin gallu

ii. Sesiynau Hyfforddi Cyflwyniad i HIA

**04** Cyhoeddiadau a Digwyddiadau

i. Symposiwm Iechyd a Masnach

ii. Adroddiad tystiolaeth economaidd newydd ar iechyd a thai

iii. Cynhadledd y Sefydliad Rhyngwladol Asesu Effaith (IAIA)

iv. "Polisi a Gwleidyddiaeth Cymru mewn Cyfnod Digynsail"

v. Cyhoeddi canllaw newydd i ddadlau dros fuddsoddi cynaliadwy mewn llesiant a thegwch o ran iechyd

**05** Diweddariadau gan y Tîm

i. Liz Green

ii. Ed Huckle

iii. Lee Parry Williams

**06** Adroddiadau Defnyddiol

**07** Cysylltu â Ni

WHIASU

*cylchlythyr*

**Croeso i rifyn Gaeaf 2019 o gylchlythyr Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU).**

Gobeithio y gwnewch chi fwynhau darllen ein herthyglau. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy ddefnyddio'r manylion ar ddiwedd y cylchlythyr.



# 01 Y Newyddion Diweddaraf

## i. Croeso i aelodau newydd tîm WHIASU


Ers cyhoeddi'r rhifyn diwethaf o'r cylchlythyr ym mis Ionawr eleni, mae WHIASU wedi croesawu dau aelod newydd i'r tîm.

Ymunodd **Kathryn Ashton** â'r tîm fel Prif Swyddog Datblygu HIA ar secondiad am 1 diwrnod yr wythnos. Yn ystod ei secondiad gyda WHIASU, bydd Kath yn ystyried sut y gellir defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd fel platfform i ddadansoddi'r Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad, a bydd hefyd yn cynnig cyngor, hyfforddiant ac arweiniad ynghylch defnyddio HIA.

Cafodd **Laura Evans** ei phenodi'n Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd ar secondiad am 3 diwrnod yr wythnos. Prif ffocws Laura yn ei rôl fydd cynnig cyngor ac arweiniad ynghylch HIA yng Nghymru, gan weithio hefyd ar gwmpasu a sefydlu Rhwydwaith Ymarfer HIA a chynnig cymorth pellach i'r tîm.



# 02 Prif Gyflawniadau





## i) Adroddiad HIA ar Brexit

Ym mis Ionawr 2019, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn trafod y goblygiadau i iechyd y cyhoedd yng Nghymru yn sgil Brexit, dan arweiniad WHIASU. Mae'r HIA hwn yn ddadansoddiad unigryw sy'n asesu Brexit o safbwynt Cymru gan ddefnyddio 'lens' iechyd y cyhoedd wrth ystyried penderfynyddion cymdeithasol iechyd ynghyd ag iechyd a llesiant y boblogaeth. Dyma'r unig HIA ar Brexit hyd yma. Mae'r HIA wedi cael ei rannu'n helaeth yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ac mae aelodau o dîm WHIASU wedi cynnal cyflwyniadau ar yr HIA ar Brexit mewn nifer o gynadleddau a digwyddiadau.




## ii) Gweithdy ar flaenoriaethau strategol ar ôl Brexit

Trefnodd WHIASU a'r Adran Bolisi weithdy ar y cyd â Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethau strategol ar ôl Brexit ar 13 Awst yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd. Rhoddodd Liz Green gyflwyniad ar yr Adroddiad HIA Brexit, a rhoddodd ddiweddariad manwl ar y newidiadau ers cyhoeddi'r adroddiad ym mis Ionawr 2019.




## iii) Cyhoeddi Fframwaith Meithrin Gallu a Hyfforddiant WHIASU ar gyfer Asesu'r Effaith ar Iechyd

Mae Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru wedi cyhoeddi fframwaith ar gyfer hyfforddiant a meithrin gallu ym maes HIA. Mae'r adroddiad technegol yn nodi fframwaith sylfaenol ar gyfer dull WHIASU o ddylunio, datblygu, cynnal a gwerthuso hyfforddiant a sesiynau meithrin gallu ym maes HIA dros y pum mlynedd nesaf.

Mae'r ddogfen yn trafod 'Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth ar gyfer HIA' sydd newydd ei sefydlu, ynghyd â 'Llwybr Datblygu ar gyfer HIA' a all lywio datblygiad y gweithlu a meithrin gallu.

Mae'r fframwaith wedi'i ddatblygu drwy gysylltu ag ymarferwyr HIA yng Nghymru a thu hwnt, a chael adborth ganddynt. Mae hefyd wedi'i ddylunio gyda chyfraniadau gan randdeiliaid allweddol gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Byrddau Iechyd Lleol, swyddogion cynllunio, ymarferwyr iechyd amgylcheddol, ac arbenigwyr iechyd y cyhoedd.

Gellir lawrlwytho'r adroddiad technegol yma.

Bydd y cynnwys yn cael ei addasu i becyn cymorth meithrin gallu ymarferol i gyrff cyhoeddus Cymru yn ddiweddarach eleni.

# 03 Hyfforddiant

## i) Cynnal hyfforddiant a meithrin gallu

Bydd cyhoeddi 'Fframwaith Hyfforddiant a Meithrin Gallu HIA' yn ddogfen gyfeirio bwysig i'r Uned wrth ddatblygu neu adolygu'r sesiynau yr ydym yn eu cynnal. Hyd yma eleni, mae'r Uned wedi cynnal ystod o sesiynau codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant penodol megis Cyflwyniad i HIA, HIA Cyflym Pen Desg a Sicrwydd Ansawdd. Mae gennym hefyd 3 ymgeisydd sydd wrthi'n cwblhau Cwrs Cymhwysedd Cynhwysfawr. At hynny, rydym wedi cynorthwyo sefydliadau/sectorau megis Cynllunio Defnydd Tir – Datblygu Cynlluniau Datblygu Lleol i gynnal elfennau o'r broses HIA drwy 'ddysgu drwy wneud' i feithrin gallu o ran parodrwydd i'r HIA statudol gael ei weithredu. Mae'r Uned hefyd y gweld y sectorau a'r sefydliadau lle mae'n rhannu ei phrofiadau HIA yn ehangu. Mae sesiynau yn y dyfodol wedi'u trefnu gyda Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ac arweinwyr Llywodraeth Cymru ym maes Grantiau Rheoli Tir Cynaliadwy.



## Sesiwn nesaf ar gyfer Hyfforddiant HIA Cyflym Pen Desg

Dyddiadau: Diwrnod 1 Dydd Iau 16 Ionawr /Diwrnod 2 Dydd Iau 26 Mawrth – darllenwch wefan WHIASU am y manylion llawn ac i gofrestru.





## ii) Sesiynau Hyfforddi Cyflwyniad i HIA

Mae dwy sesiwn Cyflwyniad i HIA wedi'u cynllunio (De Cymru ar 24 Hydref a Gogledd Cymru ym mis Chwefror 2020). Gellir gweld y manylion a chofrestru drwy ddilyn y dolenni isod.

**Cymraeg** -
https://whiasu.publichealthnetwork.cymru/cy/news/introduction-health-impact-assessment-training-session/

**Saesneg** -
https://whiasu.publichealthnetwork.cymru/en/news/introduction-health-impact-assessment-training-session/

Mae'r Uned hefyd yn bwriadu cynnig sesiwn Hyfforddiant Cyflym Pen Desg yn y flwyddyn newydd, a bydd y sesiwn hon yn cael ei hyrwyddo cyn hir ar ein gwefan a thrwy Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru. Mae'r Uned bob amser yn hapus i drafod anghenion unigolion a sefydliadau o ran codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant penodol ar gyfer HiAP a HIA.





# 04 Cyhoeddiadau a Digwyddiadau

## i) Symposiwm Iechyd a Masnach

Mae Liz Green a Nerys Edmonds, WHIASU, yn arwain Symposiwm Iechyd a Masnach a fydd yn cael ei gynnal ar 7 Tachwedd rhwng 10.00 a 15.00 yn yr Hwb Gwyddorau Bywyd.

Nod y symposiwm yw cywain a rhannu gwybodaeth ynghylch yr amgylchedd polisi masnach newydd a'i oblygiadau posibl i iechyd a llesiant yng Nghymru. Bydd amrywiol arbenigwyr ym meysydd iechyd y cyhoedd a masnach yn rhannu eu profiadau, a nod y diwrnod fydd helpu i feithrin gallu a chysylltiadau ar gyfer ymgysylltu yn y maes polisi allweddol hwn ar gyfer 'Cymru Iachach'.
Am ragor o wybodaeth ynghylch y digwyddiad ac i gofrestru, cliciwch yma.




## ii) Adroddiad tystiolaeth economaidd newydd ar iechyd a thai

Mae adroddiad newydd ar iechyd a thai wedi'i gyhoeddi ar y cyd rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cartrefi Cymdeithasol Cymru, a'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE).

Mae'r adroddiad yn deillio o adolygiad llenyddiaeth a oedd yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd ymyriadau sydd wedi'u dylunio i wella cyflwr tai, mynd i'r afael â digartrefedd, a manteision addasu gan gynnwys: atal digartrefedd, lleihau tlodi tanwydd, lleihau lleithder, ac atal achosion o gwymp.

Mae'r adroddiad yn trafod effaith ansawdd tai, cartrefi anaddas, a digartrefedd ar iechyd a llesiant yng Nghymru, ac mae'n trafod manylion yr enillion yn sgil buddsoddi mewn ymyriadau tai penodol. Mae'r adroddiad hefyd yn dadlau dros ddefnyddio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn y system gynllunio i sicrhau bod iechyd a llesiant yn ystyriaethau pennaf wrth gynllunio tai ac adeiladau.

Bydd yn sylfaen dystiolaeth amhrisiadwy i'r rhai sy'n cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd yn sgil ymyriadau tai. Gallwch lawrlwytho'r adroddiad a'r ffeithlun yma.

## iii) Cynhadledd y Sefydliad Rhyngwladol Asesu Effaith (IAIA)

Cynhaliodd Liz Green, Cyfarwyddwr Rhaglen ar gyfer HIA/WHIASU gyflwyniad yng Nghynhadledd y Sefydliad Rhyngwladol Asesu Effaith (IAIA) a gynhaliwyd yn Brisbane o 29 Ebrill tan 2 Mai. Cynhaliodd Liz ddau gyflwyniad. Enw'r cyntaf oedd 'From voluntary to statutory: The evolution of HIA in Wales', ac enw'r ail oedd 'More than a classroom: HIA training in Wales'.

Cyfrannodd Liz drwy wahoddiad hefyd at sesiwn ryngweithiol i adolygu a diweddaru papur IAIA o'r egwyddorion arfer gorau ar gyfer HIA a chyfarfod adran HIA.




## iv) "Polisi a Gwleidyddiaeth Cymru mewn Cyfnod Digynsail"

Ar 24 Mai 2019, cynhaliodd Nerys Edmonds o WHIASU gyflwyniad ar yr HIA Brexit mewn digwyddiad a drefnwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, o'r enw **"Polisi a Gwleidyddiaeth Cymru mewn Cyfnod Digynsail"** ym Mhrifysgol Abertawe. Gellir gweld holl gyflwyniadau'r digwyddiad yma gan gynnwys y cyflwyniad ar yr HIA ar Brexit.


Byddwn yn trafod gwerthusiad o'r HIA ar Brexit yn ein cylchlythyr nesaf.



## v) Cyhoeddi canllaw newydd i ddadlau dros fuddsoddiad cynaliadwy mewn llesiant a thegwch o ran iechyd

Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddwyd canllaw ymarferol newydd: 'How to Make the Case for Investment in Well-being and Health Equity'. Y canllaw hwn yw'r cynnyrch cyntaf sydd wedi'i greu o dan Ganolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd (WHO CC), Iechyd Cyhoeddus Cymru, ar gyfer y rhaglen waith sy'n ystyried buddsoddi ar gyfer iechyd a llesiant, ac mae'n amlinellu pedwar prif gam wrth gyfuno, trosi a chyfathrebu tystiolaeth economaidd ar iechyd y cyhoedd yn bolisi ac yn gamau gweithredu ymarferol. Mae'r pedwar cam rhyng-gysylltiedig yn arwain y darllenwr drwy'r broses o ddatblygu cynhyrchion sydd wedi'u llywio gan dystiolaeth, sydd mewn cyd-destun i dargedu cynulleidfa benodol. Nod y canllaw yw (i) atal diffyg buddsoddi mewn iechyd; (ii) cynyddu buddsoddiad mewn mesurau atal (iechyd y cyhoedd); a (iii) sicrhau buddsoddiad traws-sector prif ffrwd i fynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd a thegwch, gan ysgogi datblygu cynaliadwy i sicrhau ffyniant i bawb.

Mae'r canllaw ymarferol hwn yn adeiladu ar adroddiad statws tegwch iechyd Ewrop gan Swyddfa Ranbarthol Sefydliad Iechyd y Byd ac agenda'r Cenhedloedd Unedig yn 2010 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy. Bydd rhanddeiliaid allweddol, eiriolwyr dros degwch iechyd, gweision sifil a gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a'r tu allan i'r maes hwn sydd â rôl o ran llunio, dylanwadu neu siapio polisi a chamau ymarferol yn genedlaethol ac is-genedlaethol yn gallu datblygu arferion llunio polisi a phenderfyniadau iach ar draws gwahanol sectorau a gwledydd.


How to Make the Case for Sustainable Investment in Well-being and Health Equity: A Practical Guide

Logic framework

Phase 1. Project scoping and planning

Phase 2. Evidence gathering, synthesis and design

Phase 3. Dissemination and communication

Phase 4. Monitoring and evaluation

### Why is this Guide needed?

**A call for action**

Urgent action is needed to address the growing health, inequity, economic and environmental challenges that threaten the well-being of present and future generations *(1)*. Regardless of improving levels of health globally and nationally, inequities between and within countries remain, reflecting differences in social, economic, political and cultural context and related investment decisions *(2,3)*. Health inequity is the challenge of our time, preventing many people from living a full life and undermining national and local efforts for sustainable growth and prosperity for all *(4)*.

Current investment policies and practices (business as usual) are unsustainable and result in high human, social, economic and environmental costs *(1)*. If no measures are taken, total healthcare costs across Organisation for Economic Cooperation and Development countries will double by 2050 (5). At the same time, only 10% of global gross domestic product (GDP) was spent on health in 2015, and arguably only around 3% of health care expenditure is allocated to public health and preventive action *(6,7)*.

National, regional and local governments can play a major role in protecting, improving and promoting the health and well-being of their populations while achieving sustainable development and health equity.


**The case for investing in well-being and health equity**

Substantial evidence demonstrates that the economic value of a healthier society is a resource for social and economic development. Reducing inequities in health improves life chances, benefits wider society and enables prosperity for all (Box 1) *(4)*.

Health inequities are not inevitable. Improving well-being and reducing health inequities are important approaches to creating and sustaining prosperous lives and nations. Coordinated policy action on the determinants of health combined with well-designed and implemented governance approaches have a dual effect on: reducing the health gap and improving overall population health *(4)*.

A key route to achieve these aims is by improving the conditions in which people are born, grow up, live, work and age. Investing in evidence-informed, cross-sectoral and fair public policies and interventions, brings multiple benefits that drive social, economic and environmental sustainability (Box 2) *(1)*.

Checklist for each phase | Abbreviations and Glossary | References | Annex | 2 / 6 | Back to contents




**Cymraeg:**

[Sut I gyflwyno'r Achos dros Fuddsoddi  Cynaliadwy mewn tegwch Iechyd a Llesiant: Canllaw Ymarferol (Crynodeb)]

[Sut I gyflwyno'r Achos dros Fuddsoddi  Cynaliadwy mewn tegwch Iechyd a Llesiant: Canllaw Rhyngweithiol]

**Adnoddau:**

Mae crynodeb o'r canllaw ar gael yma: https://ihcc.publichealthnetwork.cymru/files/7915/6223/7713/WHO_CC_Investment_Guide_Summary_English.pdf

Mae'r fersiwn lawn o 'How to Make the Case for Investment in Well-being and Health Equity: A Practical Guide' wedi'i datblygu fel dogfen (PDF) ryngweithiol ar-lein, sy'n hawdd ei defnyddio. Mae'r fersiwn hon ar gael yma: https://ihcc.publichealthnetwork.cymru/files/9815/6223/7672/WHO_CC_Investment_Guide_Interactive_English.pdf

# 05 Diweddariadau gan y Tîm





i) Ar hyn o bryd, mae WHIASU/ Liz Green wrthi'n cwblhau'r gwaith o ddiweddaru'r HIA ar Brexit i Gymru. Mae hefyd yn arwain y gwaith Cynllunio ac Iechyd ynghyd â'r camau a ddeilliodd o HIA ar Strategaeth Gordewdra Cymru a gynhaliwyd ar y cyd â Health Improvement, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru. Caiff hwn ei ddefnyddio i lywio a dylanwadu ar gynnwys a gweithrediad y ddogfen derfynol 'Pwysau Iach, Cymru Iach'.

Gweithiodd Liz ar 5 HIA y llynedd ar draws ystod o sectorau gan gynnwys gofal iechyd, cynllunio ar gyfer datblygu a pholisi llywodraeth ar yr un pryd â'i gwaith fel Cyfarwyddwr yr Uned.

Ar hyn o bryd, mae Liz wrthi'n cydweithio i drefnu Rhag-gynhadledd HIA yng Nghynhadledd Iechyd Cyhoeddus Ewrop ym Marseilles ym mis Tachwedd 2019. Gwneir y gwaith hwn ar y cyd â Swyddfa Ranbarthol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer yr Amgylchedd ac Iechyd, Bonn, Sefydliad Iechyd y Cyhoedd Portiwgal, Sefydliad Iechyd y Cyhoedd Gogledd Reine Westphalia, yr Almaen, ac arweinwyr Adrannau HIA EUPHA .

https://whiasu.publichealthnetwork.cymru/en/news/pre-conference-12th-european-public-health-conference/

Bydd Liz hefyd yn cydweithio mewn sesiwn amser cinio ar 'iechyd a chynllunio gofodol' yng Nghynhadledd Dylunio Dinasoedd Trefol 2019 ar y cyd â Michael Chang, Rheolwr Rhaglen, Tîm Lleoedd Iach, Public Health England. Gweler y ddolen yma. Bydd Liz hefyd yn cynnal cyflwyniad yng Nghynhadledd Lancet, 'Public Health Research into Science', ym mis Tachwedd.

Hoffai Liz hefyd sôn fod WHIASU a CIEH wedi dyfarnu eu 130fed Tystysgrif Cymhwysedd am gwrs hyfforddiant HIA Cyflym ers 2015.

ii) Ers i secondiad Ed ddechrau ym mis Medi 2018, mae wedi bod yn hynod o brysur! Mae'r secondiad un diwrnod yr wythnos o Public Health England wedi helpu Ed i ehangu ei wybodaeth arbenigol ar amgylchedd iechyd cyhoeddus gan ganolbwyntio ar benderfynyddion iechyd a llesiant ehangach mewn polisïau ac yn ymarferol.

Dywed Ed: 'Mae wedi dod yn gliriach i mi bod y dull 'iechyd ym mhob polisi' yn hollbwysig ar lefel genedlaethol a lleol i sicrhau bod y broses benderfynu yn cynnwys ystyriaethau iechyd. Yn wir, mae Asesu'r Effaith ar Iechyd yn dangos hyn hyn ymarferol! Nid mater o ddiwallu gofyniad neu rwymedigaeth yw hyn. Mae'n broses benderfynu ddemocrataidd a thryloyw sy'n ein galluogi i weld a deall barn pobl eraill.'

Hyd yma, mae Ed wedi cyfrannu at weithdai Asesu'r Effaith ar Iechyd yn trafod ystod o agweddau gan gynnwys strategaeth gordewdra Llywodraeth Cymru; y goblygiadau i iechyd y cyhoedd yn sgil lleihau gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu yng nghyrff cyhoeddus Cymru, a Chynllun Datblygu Lleol ar gyfer awdurdod lleol. Wrth drafod canlyniadau'r gweithdai hyn a'r adroddiadau sydd ar ddod (a gyhoeddir yn nhymor y gaeaf 2019), dywed Ed fod hyn yn amlygu gwerth ymgysylltu, gan edrych ar rinweddau cadarnhaol a negyddol cynigion ynghyd â'r canlyniadau anfwriadol na chânt eu hystyried bob amser. Dywed fod hyn yn profi gwerth Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd.

Gan ddefnyddio dogfen Adolygu Sicrwydd Ansawdd WHIASU, mae Ed wedi gallu helpu awdurdod lleol wrth adolygu Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Mae hyn wedi helpu i esgor ar drafodaethau pellach gyda rhanddeiliaid ynghylch penderfynyddion iechyd ehangach.

Mae Ed wedi cwrdd ag ystod o weithwyr proffesiynol sydd oll wedi ymrwymo i gyflwyno'r agenda iechyd, a bydd yn parhau i gwrdd â'r gweithwyr hynny. Mae'n ddiolchgar iawn am iddo gael y cyfle hwn i ehangu ei bortffolio. Bydd Ed yn brysur wrth ei waith am weddill ei secondiad.



iii) **Cyfarfod 'Advancing Health and Health Equity: Lessons from Around the Globe' a Chynhadledd Ryngwladol APPAM 2019: 'Public Policy in an Era of Rapid Change' – Barcelona. Ysgrifenna Lee:**

'Y llynedd, roedd WHIASU mewn cysylltiad ag Ymddiriedolaeth Pew sydd wrthi'n ymgymryd â phrosiect yn canolbwyntio ar Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA) ar y cyd â Sefydliad Robert Wood Johnson <https://www.pewtrusts.org/en/projects/health-impact-project>. Roeddem yn teimlo bod hyn yn gyfle i rannu gwersi a phrofiadau. Arweiniodd y drafodaeth gychwynnol hon at wahoddiad i WHIASU gyfrannu at gyfarfod yr oeddent yn ei drefnu yn Barcelona o'r enw '*Advancing Health and Health Equity: Lessons from Around the Globe*'. Aeth Lee i gynrychioli'r Uned a chyfrannodd at sesiwn o'r enw '*Statutory and Cross-Sectorial Approaches to Advancing Health and Health Equity*'. Cyn y cyfarfod hwnnw hefyd, aeth Lee i Gynhadledd Ryngwladol APPAM: *'Public Policy in an Era of Rapid Change'*.

Roedd y sesiynau yn y gynhadledd yn ddiddorol ac yn cwmpasu ystod o bynciau gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, polisi cyhoeddus yn seiliedig ar dystiolaeth, penderfynyddion strwythurol anghydraddoldebau cymdeithasol. Y thema ganolog drwy'r gynhadledd waeth beth fo'r pwnc oedd yr angen i newid ein ffordd o weithio. Mae hyn yn cyd-fynd yn sylweddol â'r cyfeiriad yng Nghymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pwyslais ar y 5 Ffordd o Weithio.


Gan fod y gynhadledd yn canolbwyntio ar ymchwil, un o'r prif gasgliadau oedd bod yn rhaid i ymchwilwyr wneud mwy i sicrhau bod eu gwaith yn cael ei droi'n gamau gweithredu, a gall ymchwilwyr ac ymarferwyr iechyd cyhoeddus wneud yn well drwy ddefnyddio'r dulliau a'r offer cywir. Drwy'r cyflwyniadau, pwysleisiwyd yr HIA fel un o'r offer i gefnogi'r gwaith o wneud polisïau yn seiliedig ar ecwiti. Mae'r tair dolen isod yn rhoi blas ar y materion a drafodwyd.

Trafodaeth ar Benderfynyddion Strwythurol Anghydraddoldebau Cymdeithasol - http://www.appam.org/the-root-causes-of-social-inequality-and-how-policy-leaders-can-change-the-narrative/?CategoryId=1

Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol a'r achos dros newid dull - https://www.healtheffects.org/sites/default/files/Burke.pdf

Roedd diwrnod y cyfarfod yn un da gan ei fod yn gyfle i glywed a dysgu sut y mae eraill wedi defnyddio Iechyd ym Mhob Polisi a HIA. Cyfeiriwyd at agweddau ar waith Cymru megis polisi beiddgar newydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chyflwyno HIA statudol. Roedd cydnabyddiaeth fod cael uned fel WHIASU yn ddefnyddiol wrth gefnogi a gwella'r ddealltwriaeth a'r defnydd o HiAP a HIA, hynny yw, troi theori yn gamau ymarferol. Roedd hyn yn rhannol oherwydd y gydnabyddiaeth fod llawer o'r drafodaeth ynghylch HiAP a HIA o safbwynt academaidd. Roedd hyn hefyd yn ein hatgoffa mai yr un yw'r mater canolog yr ydym yn oll yn ceisio ei ddatrys, sef anghydraddoldebau, ond mae sectorau a rhanbarthau ar gyfnodau gwahanol yn eu gwaith, gyda rhai dulliau mwy aeddfed ac eraill lle mae angen gwaith pellach arnynt'.

paper- policy
change for addressi



# 06 Adroddiadau Defnyddiol Eraill

- **'Urban green space interventions and health: A review of impacts and effectiveness. Full report (2017)'**: http://www.euro.who.int/en/health-topics/environment-and-health/urban-health/publications/2017/urban-green-space-interventions-and-health-a-review-of-impacts-and-effectiveness.-full-report-2017 "The findings show that interventions to increase or improve urban green space can deliver positive health, social and environmental outcomes for all population groups, particularly among lower socioeconomic status groups. Yet, there is a need for better inclusion of health and equity outcomes in studies on green space interventions, and an improved monitoring of local green space management and related health and equity impacts."

- **'Spending at least 120 minutes a week in nature is associated with good health and wellbeing'**: https://www.nature.com/articles/s41598-019-44097-3 "Compared to no nature contact last week, the likelihood of reporting good health or high well-being became significantly greater with contact ≥120 mins (e.g. 120–179 mins: ORs [95%CIs]: Health = 1.59 [1.31–1.92]; Well-being = 1.23 [1.08–1.40]). Positive associations peaked between 200–300 mins per week with no further gain. The pattern was consistent across key groups including older adults and those with long-term health issues. It did not matter how 120 mins of contact a week was achieved (e.g. one long vs. several shorter visits/week)."

- **'A pragmatic public health-driven approach to enhance local air quality management risk assessment in Wales, UK'**
  Brunt H, Jones S J (2019) Environmental Science and Policy 96, pp 18-26,
  https://doi.org/10.1016/j.envsci.2019.02.008
  Roedd y prosiect hwn yn amcanu i ddatblygu a phrofi defnydd o ddull ymarferol o gynnal asesiadau o risg llygredd aer yng nghyd-destun penderfynyddion iechyd ehangach. Roedd y dull peilot – a alwyd 'Health and Air Pollution Risk Assessment/Area Prioritisation (HAP-RAP)' – yn cynnig dull cyfoes wedi'i yrru gan iechyd y cyhoedd i asesu risgiau gyda'r bwriad o ategu'r dulliau rheoli ansawdd aer rhagnodedig presennol.

- **'Implementing health in all policies: lessons from around the world, The health Foundation', Awst 2019**

  Mae 'Iechyd ym Mhob Polisi' yn ffordd sefydledig o wella iechyd ac ecwiti iechyd drwy gymryd camau traws-sector ar benderfynyddion iechyd ehangach. Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnig cipolwg ar astudiaethau achos ar draws y byd i ddangos sut y mae'r dull hwn wedi'i weithredu.

  health Foundation
  Implementing healtl

- **'Fairer and Stronger – rebalancing the UK Economy, UK 2070 Commission, May 2019': http://uk2070.org.uk/wp-content/uploads/2019/05/FIRST-REPORT-UK-2070-EXECUTIVE-SUMMARY.pdf** Mae Comisiwn 'UK 2070' yn ymchwiliad annibynnol i'r anghydraddoldebau sylfaenol o ran daearyddiaeth yn y DU. Dyma adroddiad cryno cyntaf yr ymchwiliad.

# Cysylltu â ni

Liz.Green@wales.nhs.uk

**Cyfarwyddwr y Rhaglen ar gyfer Asesu'r Effaith ar Iechyd**

Gweithio yn Wrecsam

Lee.ParryWilliams@wales.nhs.uk

**Uwch Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd (Polisi ac Asesu Effaith)**

Gweithio yn yr Wyddgrug

Nerys.S.Edmonds@wales.nhs.uk

**Uwch Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd (Polisi ac Asesu Effaith)**

Gweithio yn Abertawe

Laura.Evans16@wales.nhs.uk

**Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd (HIA)**

Yn gweithio yng Nghaerdydd

Kathryn.Ashton2@wales.nhs.uk

**Prif Swyddog Datblygu Asesiad o'r Effaith ar Iechyd**

Secondiad yng Nghaerdydd

Edwin.Huckle@phe.gov.uk

**Prif Swyddog Datblygu Asesiad o'r Effaith ar Iechyd**

Secondiad yng Nghaerdydd

Vicky.Smith2@wales.nhs.uk

**Swyddog Cymorth Prosiect**

Yn gweithio yng Nghaerdydd

Laura.Morgan47@wales.nhs.uk

**Ymchwilydd Iechyd y Cyhoedd**

Yn gweithio yng Nghaerdydd

Am ragor o wybodaeth a chanllawiau ynghylch HIA, ewch i'n gwefan